TTC 2000 Limited
Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ
T: 0330 024 1805
www.thettcgroup.com

# TTC 2000 Cyf Cyrsiau NDORS Telerau ac Amodau
Yn weithredol o Awst 2025

GWYBODAETH BWYSIG - WRTH ARCHEBU LLE AR GWRS GYDA TTC 2000 CYF, RYDYCH YN CYDSYNIO
Â'R TELERAU AC AMODAU CANLYNOL I BOB CWRS NDORS (Cwrs Ymwybyddiaeth Cyflymder, Ymwybyddiaeth Traffyrdd, Ymwybyddiaeth Risg Beiciwr, Beth Sy'n Ein Gyrru? a Gyrru Diogel ac Ystyriol)

Os ydych chi'n mynychu **Cwrs Gyrru Diogel ac Ystyriol** bydd angen i chi gymryd sylw o adran 10 hefyd.

1. **Archebu lle ar gwrs**
   a) Defnyddir y cyfeiriad e-bost neu'r rhif ffôn symudol a ddarperir adeg archebu i gadarnhau manylion yr archebu ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau yn ôl yr angen. Os nad ydych wedi derbyn cadarnhad cyn pen 7 diwrnod, rhaid i chi gysylltu â TTC 2000 Cyf i gadarnhau dyraniad eich cwrs. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i TTC 2000 Cyf ar unwaith os yw unrhyw un o'ch manylion cyswllt yn newid. Rydym yn argymell gwirio'ch e-byst yn rheolaidd gan gynnwys sbam am unrhyw ddiweddariadau.
   b) Anfonir manylion mewngofnodi ar gyfer unrhyw gwrs digidol drwy e-bost a/neu neges destun o fewn 24 awr o amser cychwyn eich cwrs
   c) Mae cyrsiau yn amodol ar argaeledd o fewn eich dyddiad cwblhau a bennir gan yr Heddlu a'ch atgyfeiriodd.
   d) Darperir y cwrs yn yr iaith Saesneg / Gymraeg gydag argaeledd is-deitlau Saesneg/Cymraeg ar gyfer y cynnwys fideo - ni fydd is-deitlau ar gyfer lleisiau'r hyfforddwr a'r cleientiaid. Os ydych chi'n archebu ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod wedi dewis yr iaith gywir ar gyfer eich anghenion gan na fydd TTC 2000 Cyf yn gyfrifol os ydych chi'n archebu cwrs mewn iaith sy'n anaddas i chi.
   e) Gall methu ag archebu lle ar gwrs o fewn y cyfnod archebu a bennwyd gan yr Heddlu arwain at dynnu cynnig y cwrs yn ôl, ac efallai y bydd yr Heddlu ystyried eich erlyn am y drosedd.

2. **Ffi / Taliad am y cwrs**
   a) Rhaid talu'n llawn am gyrsiau a archebir ar-lein adeg archebu. Os ydych yn dymuno talu mewn rhandaliadau cysylltwch â'n swyddfa, ac bydd angen, adeg archebu, isafswm blaendal na ellir ei ad-dalu. Mae blaendaliadau cwrs yn amrywio rhwng cyrsiau, ac fe'u cadarnheir isod:

| Cwrs | Isafswm Blaendal |
|---|---|
| • Ymwybyddiaeth Cyflymder Cenedlaethol<br>• Ymwybyddiaeth Traffyrdd Cenedlaethol<br>• Beth Sy'n Ein Gyrru?<br>• Ymwybyddiaeth Risg Beiciwr Cenedlaethol | £25 |
| • Gyrru Diogel ac Ystyriol | £45 |

   b) Os methwch â thalu'r gweddill sy'n ddyledus 2 wythnos cyn dyddiad y cwrs, cewch eich tynnu o'r cwrs. Ar ôl hyn os ydych chi am aildrefnu'ch cwrs am ddyddiad arall, yna bydd angen y gweddill sy'n ddyledus ynghyd â ffi aildrefnu. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.
   c) Gall prisiau cwrs amrywio ac maent yn gywir adeg archebu. Os bydd unrhyw newid mewn prisiau, a chithau eisoes wedi archebu'ch cwrs yna ni fydd hawl gennych i ofyn am adolygiad o ffi eich cwrs.


Mae'r Grŵp TTC yn cynnwys TTC Group (UK) Cyf (rhif cofrestredig 06214074) a'i is-gwmnïau: TTC 2000 Cyf (rhif cofrestredig 08446911), Cycle Experience Cyf (rhif cofrestredig 03036579).
Balanceability yw enw masnachu Cycle Experience Cyf. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestredig Grŵp TTC: Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ.

3. **Archebu Hyblyg (Flexi Booking)**
   a) Efallai y bydd Archebu Hyblyg ac Archebu Hyblyg Premiwm ar gael wrth ichi archebu/dalu am y tro cyntaf gyda TTC 2000 Cyf, ac hynny yn amodol ar argaeledd.
   b) Os prynir Archebu Hyblyg, bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi aildrefnu yn ddi-dâl, un tro yn unig, hyd at amser cychwyn eich cwrs a drefnwyd.
   c) Os prynir Archebu Hyblyg Premiwm, bydd hyn yn caniatáu aildrefnu yn ddi-dâl, yn ddiderfyn, hyd at amser cychwyn eich cwrs a drefnwyd.
   d) Os yw Archebu Hyblyg/ Archebu Hyblyg Premiwm wedi'i weithredu eisoes; neu os yw'r cwrs wedi dechrau; neu os ydych wedi methu mynychu'r cwrs, efallai y bydd angen ffi aildrefnu. I gael manylion am y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4
   e) Gellir gweithredu Archebu Hyblyg/ Archebu Hyblyg Premiwm ar-lein.
   f) Nid yw prynu Archebu Hyblyg/ Archebu Hyblyg Premiwm yn effeithio ar eich hawliau statudol.

4. **Aildrefnu Cwrs**
   a) Mae gennych 14 diwrnod o'r dyddiad archebu gwreiddiol i aildrefnu'ch cwrs yn ddi-dâl, ond os ydych chi'n archebu i fynychu cwrs o fewn yr amserlen hon ac angen aildrefnu, gallwch wneud hynny yn ddi-dâl hyd at amser cychwyn y cwrs, ac ar ôl y adeg hwn codir y ffi aildrefnu am unrhyw newidiadau. Os gwneir unrhyw newidiadau ar ôl 14 diwrnod, neu os cewch eich tynnu o'ch cwrs am unrhyw reswm, yna codir ffioedd aildrefnu fel y'u gosodir isod:

| Cwrs | Ar ôl 15 diwrnod o ddyddiad archebu ond cyn 7 diwrnod o'r dyddiad y cwrs | O fewn 7 diwrnod i ddyddiad y cwrs, ac hefyd os cewch eich tynnu am unrhyw reswm, neu ddiffyg presenoldeb |
|---|---|---|
| • Ymwybyddiaeth Cyflymder Cenedlaethol<br>• Ymwybyddiaeth Traffyrdd Cenedlaethol<br>• Beth Sy'n Ein Gyrru?<br>• Ymwybyddiaeth Risg Beiciwr Cenedlaethol | £25 | £39 |
| • Gyrru Diogel ac Ystyriol | £45 | £80 |

   b) Mae aildrefnu cwrs yn amodol ar argaeledd cwrs cyn eich dyddiad cwblhau a bennwyd gan yr Heddlu Rhanbarthol a'ch cyfeiriodd .
   c) Os na fyddwch yn gallu mynychu neu gwblhau cwrs oherwydd salwch, bydd gofyn am ffi aildrefnu. Efallai yr ad-delir hwn ar ôl i TTC 2000 Cyf dderbyn tystysgrif feddygol a'i hadolygu (gall eich darparwr gofal iechyd godi ffi broffesiynol am hyn). Gwneir pob ymdrech i gynnig dyddiad arall (ar yr amod bod digon o amser o fewn y dyddiad cwblhau a roddwyd gan yr heddlu). O dan amgylchiadau o'r fath rhaid i chi gysylltu â'n swyddfa.
   d) Os na fyddwch yn cwblhau eich cwrs, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â TTC i'w aildrefnu cyhyd â bod digon o amser cyn dyddiad cwblhau'r cwrs.
   e) Bydd y telerau ac amodau hyn yn parhau i fod yn berthnasol i'ch archeb a'r cwrs ni waeth a fydd dyddiad y cwrs yn cael ei aildrefnu o dan yr adran 4 hwn.
   f) Os na fydd TTC 2000 Cyf yn gallu cyflwyno un o'i gyrsiau, byddwn yn ymdrechu i roi cymaint o rybudd â phosibl. Bydd eich cwrs yn cael ei aildrefnu cyn gynted â phosibl heb unrhyw dâl ychwanegol, cyn belled â bod digon o amser. Ni fydd TTC 2000 Cyf yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw golledion ariannol boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a achosir o ganlyniad i ganslo neu ohirio unrhyw un o'i gyrsiau.

5. **Addasiadau Rhesymol**
   a) Gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol ar yr amod bod TTC 2000 Cyf wedi cael gwybod am geisiadau penodol ymlaen llaw. Os na wneir unrhyw rybudd o'r fath ni fydd TTC 2000 Cyf yn gyfrifol am fethu â darparu ar gyfer y rhain. Os oes angen gofal personol arnoch yn ystod hyd eich cwrs bydd angen i chi ddarparu'ch gofalwr eich hun, ac unwaith eto mae'n rhaid i chi roi gwybod i TTC 2000 Cyf os felly. Os na allwch


Mae'r Grŵp TTC yn cynnwys TTC Group (UK) Cyf (rhif cofrestredig 06214074) a'i is-gwmnïau: TTC 2000 Cyf (rhif cofrestredig 08446911), Cycle Experience Cyf (rhif cofrestredig 03036579). Balanceability yw enw masnachu Cycle Experience Cyf. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestredig Grŵp TTC: Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ.

**TTC 2000 Limited**
Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ
T: 0330 024 1805
**www.thettcgroup.com**

fynychu'r cwrs oherwydd hyn fe godir ffi aildrefnu os aildrefnir cwrs pellach. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

b) Os oes angen Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu Adroddwr Llais-i-Destun arnoch chi, rhowch wybod i ni adeg archebu - nid oes unrhyw dâl am hyn. Fodd bynnag, os yw cyfieithydd BSL neu Adroddwr Llais-i-Destun wedi'i archebu a chithau'n methu â mynychu'r cwrs, efallai y codir ffi aildrefnu a thâl i'r cyfieithydd neu'r adroddwr fynychu cwrs pellach gyda chi.

c) Os ydych chi'n mynychu cwrs digidol a TTC wedi trefnu Cyfieithydd BSL i chi, ni allwch ddefnyddio ffôn symudol na chyfrifiadur llechen ar gyfer y cwrs gan na ellir gweld y Cyfieithydd BSL ar eich sgrin. Mae angen defnyddio gliniadur neu gyfrifiadur penbwrdd.

d) Os yw'ch meistrolaeth ar y Saesneg yn golygu y byddech chi'n ei chael hi'n anodd deall y cwrs, eich cyfrifoldeb chi yw darparu cyfieithydd (o leiaf 16 oed) sydd ag adnabod ffotograffig. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

## 6. Canslo Cwrs

a) Mae gennych 14 diwrnod o'r dyddiad archebu (y "Cyfnod Ailystyried") i ganslo'ch cwrs a derbyn ad-daliad llawn (oni bai eich bod wedi mynychu eich cwrs) cyn i'r Cyfnod Ailystyried ddod i ben.

b) Os ydych wedi archebu cwrs o fewn y Cyfnod Ailystyried ac wedi methu â chwblhau'r cwrs, bydd gennych hawl i ad-daliad rhannol o £55.

c) Os dymunwch ganslo wedi i'r Cyfnod Ailystyried ddod i ben, bydd gennych hawl i ad-daliad rhannol o £55.

d) Os, o dan unrhyw un o'r telerau ac amodau, daw yn angenrheidiol aildrefnu eich cwrs ar ôl y Cyfnod Ailystyried ac nad yw'n bosibl naill ai ei aildrefnu am unrhyw reswm neu rydych yn methu â'i aildrefnu, bydd eich cwrs yn cael ei ganslo, a bydd gennych hawl i ad-daliad rhannol o £55.

## 7. Adnabod

a) Ar ddiwrnod y cwrs, fel rhan o'r broses gofrestru, mae'n ofynnol arnoch ddangos adnabod ffotograffig. Ni dderbynnir llungopïau na chopïau digidol. Ewch i www.ukroed.org.uk am restr o adnabod ffotograffig derbyniol

b) Os, am resymau personol neu grefyddol, byddwch yn dewis gwisgo ffurf o benwisg, neu eitem o ddillad yn ystod y cwrs a fydd yn gorchuddio eich wyneb yn llwyr neu'n rhannol, mae'n rhaid i chi roi gwybod i TTC 2000 Cyf cyn eich cwrs er mwyn gellir gwneud trefniadau angenrheidiol i brofi'ch hunaniaeth. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni ymlaen llaw, efallai y byddwch yn cael eich gwahardd o'r cwrs. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnig dyddiad arall, cyn belled â bod digon o argaeledd ac amser o fewn dyddiad cwblhau'r heddlu. Efallai y bydd angen ffi aildrefnu bellach. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

## 8. Gofynion Cwrs Digidol

a) Er mwyn mynychu'r cwrs ar-lein, rhaid i chi gael mynediad at un o'r canlynol
   - Cyfrifiadur neu liniadur – Ein cyngor yw peidio â defnyddio Chromebook. Mae wedi dod i'n sylw nad yw yn caniatáu unrhyw ddiweddariadau ap o fewn Zoom, a hynny yn gallu eich atal rhag cwblhau cwrs.
   - Cyfrifiadur llechen
   - Ffôn Symudol

   **Rhaid bod gan bob dyfais:**
   ✓ Mynediad i'r Rhyngrwyd
   ✓ Camera Gwe
   ✓ Meicroffon
   ✓ Seinyddion neu glustffonau
   ✓ Cysylltiad Rhyngrwyd parhaus
   ✓ Digon o drydan yn y batri i barhau am 3 awr a 30 munud o leiaf

b) Gwnewch yn siŵr eich bod wedi profi'ch offer a'ch rhwydwaith er mwyn bod yn hyderus am ei ddefnyddio cyn mynychu'r cwrs Dosbarth Digidol. Dylech lawrlwytho'r ap Zoom cyn y cwrs, ac


Mae'r Grŵp TTC yn cynnwys TTC Group (UK) Cyf (rhif cofrestredig 06214074) a'i is-gwmnïau: TTC 2000 Cyf (rhif cofrestredig 08446911), Cycle Experience Cyf (rhif cofrestredig 03036579). Balanceability yw enw masnachu Cycle Experience Cyf. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestredig Grŵp TTC: Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ.

argymhellir cychwyn cyfarfod arbrofol gydag aelod o'r teulu / ffrind i wirio bod eich dyfeisiau'n gweithio a'ch bod yn gyfarwydd â'r ffordd o'u rheoli.

c) Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych chi ddigon o ddata wrth gefn ar y rhyngrwyd i alluogi'ch dyfeisiau i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Rhaid i'ch cyflymderau rhyngrwyd fod yn uwch na'r gofynion sylfaenol ar gyfer galwadau fideo grŵp fel a nodir ar https://support.zoom.us/hc/en-us/articles/201362023-System-Requirements-for-PC-Mac-andLinux

d) Mae gwarchod cyfrinachedd ein cleientiaid yn hollbwysig, felly mae'n rhaid i chi sicrhau na all neb heblaw mynychwr y cwrs weld eich sgrin na chlywed cynnwys y cwrs. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dilyn y cwrs mewn ystafell breifat (heb unrhyw beth i dynnu'ch sylw) gyda'ch sgrin wedi'i gosod mewn ffordd sy'n atal unrhyw berson anawdurdodedig rhag gweld cynnwys y cwrs. Mae'n ofynnol gallu canolbwyntio a chymryd rhan yn llwyr drwy gydol y cwrs, felly mae lle tawel yn hanfodol i gwblhau'r cwrs.
   i. Rhaid i chi fynychu cwrs digidol heb fod unrhyw sŵn i dynnu sylw, a hynny yn cynnwys anifeiliaid anwes ond nid yn gyfyngedig iddynt.

e) Gellir cwblhau cwrs mewn cerbyd llonydd ar yr amod nad ydych chi yn sedd y gyrrwr a'ch bod wedi parcio mewn man diogel heb unrhyw un arall yn bresennol.

f) Drwy gydol y cwrs, byddwch yn cael eich gweld ar y sgrin gan yr hyfforddwr a phawb sy'n cymryd rhan.

g) Os na allwch fynychu a chwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, yna bydd angen ystyried un o'r opsiynau erlyn eraill.

**9. Mynychu/Cwblhau Cwrs NDORS**

a) Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd/mewngofnodi o leiaf 15 munud cyn i'r cwrs gychwyn, er mwyn caniatáu digon o amser at ddibenion cofrestru. Gwrthodir mynediad i bobl sy'n cyrraedd yn hwyr a gellir cyfeirio eu hachos at yr heddlu. Os gwrthodir mynediad, rhaid i chi gysylltu â'n swyddfa ar unwaith ar 0330 024 1805 i'n hysbysu o hyn. Efallai y bydd angen ffi aildrefnu os ydych am archebu cwrs arall. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

b) Os ydych wedi archebu i fynd ar gwrs digidol ac nad ydych yn cysylltu'n llwyddiannus â Zoom am unrhyw reswm, cewch eich gwahardd o'r cwrs a bydd ffi aildrefnu os ydych am drefnu cwrs arall. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

c) Mae cwblhau'r cwrs yn foddhaol yn dibynnu ar bresenoldeb trwy **gydol** y cwrs ac ar wneud cyfraniad llawn a chadarnhaol. Rhaid i chi aros yn gwbl weladwy ar y sgrin trwy gydol y cwrs wrth fynychu cwrs digidol. Nid oes prawf i'w gael. Os ydych chi'n gadael y cwrs cyn iddo orffen, neu os yw ein hyfforddwr o'r farn nad ydych chi'n cymryd rhan ac yn gofyn i chi adael, bydd hyn yn cael ei gofnodi fel 'heb gwblhau'. Codir ffi aildrefnu os ydych chi'n dymuno archebu lle ar gwrs arall. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

d) Rhaid i chi barhau i fod yn barchus ac i fynychu'r cwrs mewn cyflwr addas, a hynny'n cynnwys y pwyntiau isod ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
   i. Rhaid i chi fod wedi'ch gwisgo'n briodol ac yn daclus fel na achosir tramgwydd i eraill sydd ar y cwrs.
   ii. Bydd yfed alcohol neu unrhyw dystiolaeth o alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn arwain at gael eich tynnu o'r cwrs ar unwaith. Ni chynigir unrhyw gyrsiau pellach. Bydd eich ffeil yn cael ei dychwelyd at yr heddlu. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd gennych hawl i gael ad-daliad rhannol o £55
   iii. Rhaid i fynychwyr barhau i barchu staff a mynychwyr eraill y cwrs; bydd unrhyw ymddygiad ymosodol, bygythiol neu aflonyddgar ar unrhyw adeg, yn arwain at gael eich gwahardd o'r cwrs ar unwaith a bydd eich ffeil yn cael ei dychwelyd at yr heddlu, gan arwain at erlyniad. Ni roddir unrhyw gynnig cwrs pellach.
   iv. Ni chaniateir cefndiroedd / hidlwyr rhithiol, a hynny yn cynnwys cefndiroedd wedi'u cymylu, yn ystod cyrsiau digidol.
   v. Rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw ddelweddau na chefndiroedd yn weladwy a allai beri tramgwydd i fynychwr arall

e) Os ydych chi'n hwyr wrth ddod yn ôl o'r cyfnod egwyl dynodedig am unrhyw reswm, cewch eich tynnu o'r cwrs. Efallai y bydd ffi aildrefnu os ydych yn dymuno archebu lle ar gwrs arall. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4.

f) Rhaid diffodd pob dyfais electronig a'i rhoi o'r golwg trwy gydol y cwrs oni bai eich bod yn defnyddio ffôn symudol neu gyfrifiadur llechen i gwblhau cwrs digidol. Rhaid i chi sicrhau bod eich dyfais wedi'i gosod i 'Peidiwch â Tharfu' er mwyn osgoi tarfu ar y cwrs.

g) Ni fydd unrhyw berson anawdurdodedig yn cael ei dderbyn ar y cwrs, mae hyn yn cynnwys plant.


Mae'r Grŵp TTC yn cynnwys TTC Group (UK) Cyf (rhif cofrestredig 06214074) a'i is-gwmnïau: TTC 2000 Cyf (rhif cofrestredig 08446911), Cycle Experience Cyf (rhif cofrestredig 03036579). Balanceability yw enw masnachu Cycle Experience Cyf. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestredig Grŵp TTC: Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ.

i. Ni fydd yr hyfforddwr yn gallu eich derbyn ar y cwrs os nad yw trefniadau gofal plant addas mewn lle.

h) Os bydd angen i chi fwydo'ch babi ar y fron, gwnewch yn siŵr bod hebryngwr yn bresennol i ofalu am y plentyn yn ystod y cwrs.
   i. Os ydych chi'n cwblhau cwrs digidol gartref, rydych chi'n dal i gael bwydo'ch babi ar y fron. Dylech drafod eich gofynion gyda TTC 2000 Cyf adeg archebu.
   ii. Os ydych chi'n mynychu canolfan gwrs bydd TTC 2000 Cyf yn ymdrechu i drefnu ystafell at ddibenion bwydo ar y fron.

i) Os ydych chi'n mynychu cwrs digidol ac yn colli cysylltiad yn ystod y cwrs ac yna yn methu ailymuno ag ef, efallai y bydd angen ffi ail-drefnu. Am fanylion y ffioedd ailddrefnu, gweler adran 4.

j) Mae'r holl gyrsiau wedi'u cloi i ddefnyddwyr sy'n tu allan i'r DU a hynny at ddibenion diogelwch. Efallai y byddwch yn dal i allu mynychu, ond rhaid i chi roi gwybod i TTC 2000 Cyf o leiaf 72 awr cyn amser cychwyn y cwrs fel ein bod yn gallu datgloi'r cwrs i chi.

## 10. Mynychu Cwrs Gyrru Diogel ac Ystyriol

a) Rhaid i chi gadw at yr holl bwyntiau yn yr amodau a thelerau hyn wrth fynychu Cwrs Gyrru Diogel ac Ystyriol.

b) Rhaid i chi ddangos eich trwydded yrru cerdyn-llun ddilys er mwyn mynychu'r cwrs. Os oes gennych y drwydded bapur hen arddull yna bydd angen i chi ei ddangos ynghyd â ffurf arall o adnabod ffotograffig. Os na allwch ddangos eich trwydded yrru ddilys bydd angen i chi ddod ag adnabod ffotograffig, ffôn symudol a'ch Rhif Yswiriant Gwladol fel y gall yr hyfforddwr wirio eich bod yn gymwys i yrru.

c) Bydd yr elfen ymarferol yn cael ei gwneud gan ddefnyddio cerbyd eich hyfforddwr, ac mae'n rhaid i chi roi gwybod i TTC 2000 Cyf adeg archebu, p'un a oes angen cerbyd gêr â llaw neu gerbyd gêr awtomatig arnoch chi.

d) Os ydych chi am ofyn am ddefnyddio'ch cerbyd eich hun am unrhyw reswm, rhaid i chi roi gwybod i TTC o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad eich cwrs. **Sylwer! Bydd eich cerbyd eich hun yn destun asesiad risg.** Wedi iddo gael ei gadarnhau bydd gofyn i chi ddarparu gwneuthuriad a model y cerbyd y bwriedir ei ddefnyddio ar y diwrnod, ynghyd â sicrhau ei fod yn addas at bwrpas cyflwyno'r cwrs. Yn ogystal, ar ddiwrnod y cwrs bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth bod y cerbyd wedi'i drethu a'i yswirio a bod ganddo Dystysgrif Prawf DVSA gyfredol berthnasol. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at ganslo'r cwrs. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4

e) Rhaid i chi allu darllen o bellter o 20 metr (gyda sbectol neu lensys cyffwrdd, os oes angen) plât rhif car a wnaed ar ôl 1 Medi 2001. Os na allwch wneud hynny cewch eich gwahardd o'r cwrs a bydd ffi aildrefnu arall os ydych am drefnu cwrs arall. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 4

## 11. Preifatrwydd

a) Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei warchod
b) Gwaherddir yn llwyr ffilmio a / neu recordio neu atgynhyrchu neu bostio unrhyw ran o gwrs ar gyfryngau cymdeithasol gan fod hyn yn torri deddfau diogelu data.
c) Bydd unrhyw un sy'n defnyddio unrhyw fath o offer recordio yn agored i gael ei (g)wahardd rhag cymryd unrhyw ran bellach yn y cwrs a bydd yr achos yn cael ei gyfeirio'n ôl at yr heddlu a hwythau fel arfer yn cychwyn achos troseddol am y drosedd wreiddiol.

## 12. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

a) Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei chadw gan TTC 2000 Cyf ac yn cael ei gwarchod yn unol â'n gofynion cyfreithiol a rheoliadol. Ni fydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i unrhyw drydydd partïon nac yn cael eu defnyddio at ddibenion marchnata a hynny yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (2018), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2018) a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (2003). Rhoddir mynediad i'ch gwybodaeth a gedwir gan TTC i'r heddlu at ddibenion gwirio statws cwblhau eich cwrs. Gellir dod o hyd i'n polisi preifatrwydd llawn trwy fynd i www.thettcgroup.com/privacy-policy


Mae'r Grŵp TTC yn cynnwys TTC Group (UK) Cyf (rhif cofrestredig 06214074) a'i is-gwmnïau: TTC 2000 Cyf (rhif cofrestredig 08446911), Cycle Experience Cyf (rhif cofrestredig 03036579).
Balanceability yw enw masnachu Cycle Experience Cyf. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestredig Grŵp TTC: Hadley Park East, Telford, TF1 6QJ.